Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Tudno Playschool**
**Ysgol Tudno**
**Trinity Avenue**
**Llandudno**
**LL30 2SJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror, 2016**

**gan**


**Dr Prydwen Elfed - Owens**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Chwarae Tudno yn nhref Llandudno. Mae'n cyflwyno darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn tair ystafell yn adeilad Ysgol Gynradd Tudno. Mae'r lleoliad yn darparu gofal diwrnod llawn o 9:00yb hyd at 3:00yp o ddydd Mawrth i ddydd Gwener drwy gydol y flwyddyn yn ystod amser ysgol. Mae hefyd yn lleoliad Dechrau'n Deg gyda deg o blant 2 oed sy'n mynychu yn y bore.

Mae'r cylch chwarae ar agor o ddydd Mawrth i ddydd Gwener o 9:00yb hyd at 11:30yb neu 3:00yp ac o 12:00 tan 3:00yp. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd i fyny at 26 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 24 o blant rhwng dwy a thair oed ar y gofrestr. Chwech o'r plant sydd yn cael eu hariannu o gyllid blynyddoedd cynnar.

Yn Hydref 2015 newidiodd y lleoliad o gefnogaeth Y Mudiad Meithrin i gefnogaeth Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru.
Saesneg ydy iaith gyntaf bron pob un o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae chwe aelod o staff yn cynnwys arweinydd llawn amser a phum ymarferwr yn gweithio ym mhob sesiwn. Maent i gyd yn brofiadol ac yn meddu cymwysterau addas yn y maes addysg a gofal plant bach. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers mis Medi 2015.

Arolygwyd y Cylch Chwarae gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Hydref 2015.a chan Estyn ym Mehefin 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad
- maent oll yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd da
- mae llawer o blant yn dangos pleser mewn llyfrau gan ddewis troi atynt gyda mwyniant
- mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd cynnar ar draws y meysydd dysgu
- mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarn i blant glywed a defnyddio'r iaith Gymraeg
- mae'r staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol i'r plant
- mae'r amgylchedd yn lliwgar ac ysbrydoledig sydd yn rhoi sylw da i ddathlu llwyddiannau plant
- mae amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ar gael i gefnogi addysgu a dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn meddu gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad ac maent yn gwbl ymroddedig iddo
- mae'r cynlluniau ar gyfer gwella yn cynnwys targedau a phrosesau clir sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol a'u monitro gan yr arweinwyr a'r awdurdod lleol
- mae pob ymarferwr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff
- mae'r rhieni yn gefnogol i'r lleoliad
- mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1. Cynllunio gweithgareddau ar ddatblygu sgiliau rhifedd sydd yn cyfatebu'n dda i oedran a gallu'r plant yn enwedig mewn sesiynau grŵp cyfan

A2. Rhoi gwybodaeth i rieni am gynnydd eu plant

A3. Sicrhau datblygiad a chynnydd pob plentyn o'r lleoliad i'r ysgol brif ffrwd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn gwahanol. Maent yn caffael ar wybodaeth a sgiliau newydd wrth iddynt archwilio eu hamgylchedd yn frwdfrydig ac yn eiddgar i roi cynnig ar brofiadau newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu ystod eang o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n eu paratoi yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Fodd bynnag, ar adegau nid yw'r plant mwyaf galluog yn cael eu herio'n ddigonol, yn enwedig mewn gweithgareddau dosbarth cyfan.

Mae llythrennedd a sgiliau cyfathrebu y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Mae mwyafrif yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus am eu gweithgareddau. Mae llawer yn dechrau sgyrsiau syml yn ddigymell, er enghraifft wrth chwarae rôl. Mae bron pob plentyn yn rhugl gan fynegi eu hunain trwy ddefnyddio geirfa briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau gwrando ar storïau ac maent yn adrodd caneuon cyfarwydd â rhigymau yn frwdfrydig, yn Saesneg ac yn  Gymraeg. Mae llawer o'r plant hŷn yn troi tudalennau llyfrau yn briodol ac yn gallu siarad am rai o'r cymeriadau yn y storïau. Mae ychydig o blant mwy galluog yn trin llyfrau'n briodol fel darllenwyr ac yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol bod y testun a'r lluniau yn 'deud' y stori. Mae llawer o blant yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ysgrifennu cynnar, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer gwneud marciau. Mae llawer yn arddangos sgiliau rheolaeth fanwl da wrth ysgrifennu ac, er enghraifft, wrth wneud bwydlenni ar gyfer eu bwyty Tseiniaidd yn yr ardal chwarae rôl.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau rhifedd cynnar cadarn. Maent yn dechrau defnyddio termau mathemategol priodol wrth ddidoli, cymharu gwrthrychau, ac archwilio siâp a chynhwysedd. Er enghraifft, wrth ddidoli niferoedd yn y cafn tywod a'u paru yn ôl lliw neu faint i rifau eraill o amgylch yr ystafell. Mewn sesiynau grwo cyfan, mae'r rhan fwyaf yn cyfrif i ddeg yn gywir ar y cof ond ychydig sydd yn gallu cyfatebu'r rhif i'r swm o wrthrychau yn gywir.

Mae gallu'r plant i ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n dda. Mae llawer yn defnyddio llygoden y cyfrifiadur yn fedrus i symud eitemau o gwmpas y sgrin a chreu lluniau. Maent yn rheoli teganau sy'n gweithio ar fatri yn dda ac maent yn defnyddio botymau a switsys yn effeithiol i newid cyfeiriad y cyfarpar yma.

Mae sgiliau iaith Gymraeg y plant yn gadarn. Mae llawer o blant yn ymateb yn briodol i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn ddyddiol. Maent yn adrodd rhigymau a chaneuon cyfarwydd yn rhwydd, ac maent yn dechrau defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu chwarae. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant yn deall ac yn defnyddio'r geiriau Cymraeg y maent wedi'i ddysgu am liwiau a rhifau.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn awyddus i ddysgu ac yn meddu agweddau cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn frwdfrydig ac yn gwneud dewisiadau yn hyderus wrth symud rhwng tasgau a osodir gan oedolion a thasgau dysgu annibynnol. Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae plant yn parhau yn brysur ac ar dasg am gyfnodau priodol o amser.

Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol pan fydd y plant yn mwynhau cwmni ei gilydd. Maent yn datblygu sgiliau dysgu annibynnol da, er enghraifft wrth rannu tost a ffrwythau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb am glirio i fyny ar ôl bwyta.

Mae gan blant berthynas dda iawn â'i gilydd a chydag oedolion. Mae bron pob un yn dangos meddylgarwch a chwrteisi, megis wrth rannu adnoddau neu gymryd eu tro. Mae safonau ymddygiad yn dda. Mae gan lawer o blant lefel uchel o hunan barch a hunan hyder. O ganlyniad, maent yn hapus ac yn barod i fentro.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynllunio ystod eang o weithgareddau sy'n cydio yn niddordeb y plant yn dda. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae wedi ei seilio'n gadarn ar egwyddorion y Cyfnod Sylfaen o ddysgu drwy brofiadau uniongyrchol o ansawdd uchel.

Mae newidiadau diweddar yr ymarferwyr i'r broses o gynllunio gweithgareddau y tu fewn a thu allan i'r dosbarth yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant ar draws pob maes dysgu. Fodd bynnag, nid yw gweithrediad y cynlluniau yn cynnig digon o gyfleoedd i bob plentyn ddeall bod rhifau yn perthynu i niferoedd penodol.

Mae plant yn cael eu hannog i fod yn annibynnol, i feddwl drostynt eu hunain ac i arbrofi gyda phrofiadau newydd. Ar y cyfan, caiff gweithgareddau eu haddasu'n briodol i ddilyn awgrymiadau a diddordebau'r plant. Darperir cyfleoedd da i blant ddatblygu eu sgiliau corfforol a chreadigol ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o ymwelwyr â'r lleoliad fel yr adeiladwr lleol, ac o ymweliadau i'r archfarchnad leol a'r ysgol goedwig, er mwyn gwella dealltwriaeth y plant o'r byd ehangach.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn dda drwy sesiynau penodol dyddiol ac arddangosfeydd addysgiadol. Mae plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Maent yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi ac yn dysgu amrediad eang o ganeuon Cymraeg. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn dda yn ystod amser grŵp cyfan ac yn barhaol drwy'r gweithgareddau. Maent yn effeithiol yn annog plant i ymateb yn Gymraeg wrth ddarllen storïau, canu caneuon a rhoi cyfarwyddiadau. Mae hyn yn cefnogi plant i gaffael yr iaith yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol ar draws pob maes dysgu. Mae cyflymder priodol y sesiynau yn golygu bod plant bob amser yn cael rhywbeth newydd a diddorol i ennyn eu sylw ac yn eu hysgogi i ddysgu. Mae arferion dyddiol clir a gwaith tîm effeithiol yn sicrhau cysondeb sy'n galluogi plant i wybod beth i'w ddisgwyl ac i deimlo'n hapus a diogel.

Mae plant yn datblygu perthynas gadarnhaol iawn gyda'r holl oedolion yn y lleoliad ac mae hyn yn eu galluogi i fod yn ddysgwyr hyderus ac i ddysgu o'u camgymeriadau. Mae'r holl ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol mewn sefyllfaoedd chwarae er mwyn symud dysgu'r plant yn ei flaen, yn aml drwy ddefnydd effeithiol o gwestiynu neu drwy ganmoliaeth briodol. Mae'r holl ymarferwyr yn fodelau ieithyddol da ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at y safonau da yn sgiliau llefaredd y plant ac yn gwella eu geirfa.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn. Mae asesiadau arsylwadol rheolaidd o unigolion a grwpiau o blant yn dechrau galluogi ymarferwyr i nodi camau nesaf plant mewn dysgu. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau asesu hyn yn gymharol newydd ac nid ydynt
eto wedi cael amser i wreiddio yn llawn. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad bob amser yn defnyddio gwybodaeth asesu yn ddigon da i fesur cynnydd plant dros gyfnod o amser yn gywir.

Cynhelir cyfarfodydd diweddaru ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd rhwng y rhieni a'r ymarferwyr, a derbynnir gwybodaeth dda iawn am les eu plentyn. Mae'r wybodaeth a gânt am gyflawniadau eu plentyn yn annigonol ac nid ydynt yn gwbl ymwybodol o gynnydd eu plentyn a sut y gallant hwythau gyfrannu i addysg eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo byw yn iach yn dda ac mae gannddynt bolisïau ac arferion priodol ar gyfer sicrhau lles emosiynol a chorfforol plant. Er enghraifft, mae mynediad dyddiol i ystod o weithgareddau corfforol, yn annog plant i ddefnyddio'r cyfarpar yn hyderus ac yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o rannu a chydweithio. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ffurfio perthnasau cadarnhaol ac i ddatblygu ymdeimlad o barch a goddefgarwch tuag at eraill. Maent yn helpu plant i reoli eu teimladau a datblygu hunan ymwybyddiaeth a hunan barch yn dda.

Mae'r arferion dyddiol yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn hyderus yn y lleoliad sydd yn cyfrannu'n sylweddol at eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Anogir y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta bwyd ac mae hyn yn eu helpu i ddod yn gyfrifol am eu glendid personol.

Mae'r lleoliad yn cefnogi anghenion emosiynol plant yn dda ac yn gweithio'n galed i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae ganddynt weithdrefnau clir i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt rwydwaith effeithiol o gysylltiadau gydag asiantaethau allanol er mwyn rhoi cymorth a chyngor ychwanegol, yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i weithgareddau. O ganlyniad, mae pob plentyn yn teimlo’i werth, yn hyderus ac yn hapus ac yn mwynhau siarad ag ymwelwyr.

Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau addas ac maent yn brofiadol iawn yn gweithio gyda phlant ifanc. Mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob maes dysgu ac mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr holl blant yn mwynhau trin amrywiaeth o adnoddau.

Mae'r adeiladau yn cael eu cynnal yn dda ac yn ddiogel. Mae’r tu fewn yn groesawgar a deniadol. Mae arddangosfeydd o waith y plant yn adlewyrchu gweithgareddau dysgu mwyaf diweddar ac yn helpu i greu awyrgylch groesawgar. Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod labelau dwyieithog ar yr arddangosfeydd a’r blychau storio a’u bod yn amlwg iawn. Mae'r rhain yn adnoddau defnyddiol i hyrwyddo adnabyddiaeth gynnar y plant o eiriau a rhifau. Mae'r gofod y tu allan yn cael ei rannu gyda'r ysgol a'i ddefnyddio'n dda. Mae yna gyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd uchel a phriodol ar gyfer oedran a gallu'r plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r rhain yn dda i gefnogi ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r gofod sydd ar gael. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd da, yn cael eu cynnal yn dda ac yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd disglair ac ysgogol ar gyfer dysgu.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau cymunedol yn effeithiol. Er enghraifft, y defnydd o dir yr ysgol leol, ac ymweliadau â siopau lleol, yn darparu profiadau dysgu ychwanegol sy'n cael effaith buddiol ar ddatblygiad corfforol a sgiliau cymdeithasol y plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinydd newydd y lleoliad yn cynnig arweinyddiaeth benodol, gryf ac effeithiol iawn, sy'n dechrau cael effaith ar safonau mewn addysgu a dysgu. Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir yn seiliedig ar ymdrech gyson i godi canlyniadau plant a datblygu’r ddarpariaeth, ac i gynnal amgylchedd meithringar, hapus ac ysgogol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sut y mae plant yn ymddwyn ac yn y safonau da a gyflawnir ganddynt. Mae arweinydd y lleoliad yn chwilio am ffyrdd y gall y lleoliad wella ac yn ymateb yn gyflym i unrhyw ganllawiau a chyngor. Rhoddir sylw pendant ar sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar les y plant.

Mae’r targedau ar gyfer gwella yn glir ac yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm ymroddedig o ymarferwyr. Mae'r holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn chwarae rhan bwysig yn symud y lleoliad ymlaen. Mae ganddynt ddisgrifiadau swyddi penodol a chyfredol. Mae gan yr arweinydd disgwyliadau clir o'r staff. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm, i gefnogi ei gilydd ac i gwrdd â nodau'r lleoliad. Maent yn rheoli eu hamser yn dda ac maent yn darparu gofal o ansawdd da i bob plentyn.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o system effeithiol o werthuso staff er mwyn cefnogi a herio'r ymarferwyr. Mae targedau'r staff yn cysylltu'n briodol a’u hanghenion hyfforddiant ac yn uniongyrchol â chynllun gwella'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd cadarn o drafodaethau i ystyried cyflawniadau a chynnydd plant ac i gynllunio camau nesaf. Mae’r arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o gryfderau'r staff ac mae hyn yn golygu bod yr holl ymarferwyr yn teimlo eu gwerth ac yn hynod frwdfrydig.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu mentrau cenedlaethol, yn enwedig yn y defnydd effeithiol o ddysgu yn yr awyr agored er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd plant. Mae’r lleoliad hefyd yn hyrwyddo bwyta'n iach yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr ac aelodau o'r tîm arweinyddiaeth yn adnabod y lleoliad yn dda iawn. Mae hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn rhan reolaidd ac effeithiol o waith yr holl staff. Mae arweinwyr yn casglu ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys barn rhieni, ac eraill sydd â diddordeb, i lywio hunan arfarnu. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer hunan- arfarnu, gan gynnwys arsylwi gwersi yn rhoi darlun clir a chywir iawn i bawb yn y lleoliad o’r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae’r adroddiad hunan arfarnu yn fanwl ac yn gywir gan nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant.

Mae'r cynllun gwella yn amlinellu targedau a chamau mesuradwy i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Mae hefyd yn cynnwys anghenion hyfforddi, adnoddau, a meini prawf llwyddiant priodol. Mae'r arweinydd yn gyfrifol am adolygu'r cynllun gwella yn rheolaidd. Defnyddir ymweliadau rheolaidd yr athro ymgynghorol yr awdurdod lleol yn effeithiol i werthuso llwyddiant y mentrau. Mae'r monitro ffurfiol hwn yn effeithiol wrth werthuso effaith newid ar ddeilliannau i blant ac wrth lywio cynllunio'r dyfodol. Er enghraifft, mae mentrau diweddar wedi arwain at welliannau gwerthfawr wrth gynllunio ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a sicrhau gwell cyfleoedd ar gyfer datblygiad diwylliannol a chymdeithasol y plant.

Mae'r arfer hwn yn hynod effeithiol i greu ymagwedd gyffredin at wella'r ddarpariaeth.

Mae'r arweinydd a'r holl ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gyflym i gyngor, arweiniad a hyfforddiant. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad ac yn chwarae rhan sylweddol yn ei wella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth berthnasol drwy hysbysfwrdd y lleoliad, cylchlythyrau, negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyswllt personol yn ddyddiol. O ganlyniad, mae rhieni yn hysbys ac yn wybodus am gynlluniau dydd i ddydd y lleoliad. Mae eu dealltwriaeth o sut gynnydd mae eu plentyn yn wneud a sut i gefnogi dysgu eu plant adref yn llai sicr. Fodd bynnag, mae'r lleoliad yn dechrau datblygu ffyrdd mwy manwl o gynllunio ac asesu cynnydd plant sy'n ystyried yn fwy penodol cyfraniad rhieni yn dysgu eu plant.

Hefyd mae gan y rhieni ddealltwriaeth a gorolwg clir o weledigaeth ac amcanion y lleoliad ac maent yn gwerthfawrogi hyn. Mae partneriaethau buddiol yn bodoli gyda'r ysgol gynradd ac mae'r arweinydd yn mynychu sesiynau hyfforddi perthnasol yr ysgol.

Mae'r pontio o'r lleoliad i'r cam nesaf yn eu haddysg yn fenter newydd nad yw wedi gwreiddio'n llawn ac felly nid yw ei effaith ar gynnydd plant yn glir eto. Mae partneriaethau effeithiol gyda'r gymuned a chysylltiadau pendant gyda phobl a sefydliadau lleol yn cyfrannu'n briodol at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant. Er enghraifft, mae plant yn ymweld â'r ysgol goedwig leol i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol a chreadigol.

Ceir partneriaeth gref gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r ymarferwyr yn croesawu'r gefnogaeth ac mae tystiolaeth glir bod y cymorth hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, er enghraifft yng nghynllunio gwelliant. Mae'r arweinydd yn mynychu cyfarfodydd yr awdurdod lleol a diweddariadau hyfforddi yn rheolaidd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn eu defnyddio'n effeithiol, gan fanteisio ar eu meysydd o arbenigedd yn dda. Er enghraifft, ymarferwr gyda gwybodaeth o gerddoriaeth yn defnyddio ei sgiliau'n fuddiol i hyrwyddo creadigrwydd y plant.

Mae arfarnu staff yn nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad ymarferwyr yn effeithiol a'r ymarferwyr yn cael mynediad at hyfforddiant addas i ddiwallu'r anghenion hyn. Er enghraifft, ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant i wella cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac, o ganlyniad, mae safonau wedi gwella. Mae'r arweinydd yn rheoli adnoddau ariannol y lleoliad yn dda. Mae hi'n monitro'r gyllideb yn rheolaidd ac yn systematig, er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o'r arian. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau gwariant yn briodol ac yn unol â'r targedau a nodwyd yn y cynllun gwella neu ym mlaenoriaethau eraill y lleoliad.

O ystyried y canlyniadau da a gyflawnir gan blant, y ddarpariaeth effeithiol ac yr arweinyddiaeth gref, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| **Dr Prydwen Elfed-Owens** | **Yr Arolygydd Cofnodol** |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol blant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |